# Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol

✂ Wedi ei olygu ar gyfer cyhoeddi

**DATGANIAD DRAFFT**

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd: 21 Mehefin 2018

# Gair am y ddogfen hon

Mae cystadleuaeth effeithiol mewn gwasanaethau band eang yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod defnyddwyr yn elwa ar brisiau is, rhagor o ddewis, gwasanaethau o ansawdd gwell ac arloesi. Y mae hefyd wedi annog nifer uchel o bobl i ymgymryd â'r ddarpariaeth, gydag 80% o gartrefi yn defnyddio band eang sefydlog i gael mynediad at y rhyngrwyd.

Mae'r ddogfen hon yn nodi asesiad Ofcom o gystadleuaeth yn y marchnadoedd mynediad band eang cyfanwerthol (ac eithrio ardal Hull). Mae'r gwasanaethau yn y marchnadoedd hyn yn cael eu prynu gan ddarparwyr telathrebu i gyflenwi gwasanaethau band eang manwerthu i ddefnyddwyr preswyl a busnesau. Rydym wedi cyhoeddi dogfen ar wahân heddiw yn nodi ein canfyddiadau a'n hatebion ar gyfer band eang yn ardal Hull.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys ein dadansoddiad o gystadleuaeth yn y marchnadoedd hyn, gan ganolbwyntio ar benderfynu a yw unrhyw ddarparwr telathrebu mewn sefyllfa ddigon cryf i ddylanwadu ar ganlyniadau'r farchnad. Yna, rydym yn nodi'r offerynnau rheoleiddiol rydym yn eu cyflwyno i ddiogelu cystadleuaeth yn yr ardaloedd hynny lle nad yw cystadleuaeth gyfanwerthol yn effeithiol.

# Cynnwys

## Adran

1. Crynodeb Gweithredol 4

## Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae band eang wedi dod yn wasanaeth cynyddol bwysig i ddefnyddwyr busnes a phreswyl yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn fwy dibynnol nag erioed ar fynediad at y rhyngrwyd ar gyfer busnes, bancio, siopa, adloniant a chymdeithasu. Mae bron pob un o gartrefi a swyddfeydd y Deyrnas Unedig (96%) bellach yn gallu cael mynediad at wasanaeth band eang sefydlog o 10 Mbit yr eiliad o leiaf, a gall 91% gael mynediad at wasanaethau band eang cyflym iawn (hynny yw, gwasanaethau sy'n cynnig cyflymder llwytho i lawr o 30 Mbit yr eiliad o leiaf).[1]

1.2 Mae defnyddio band eang hefyd wedi cynyddu'n sylweddol wrth i ddefnyddwyr fynd ar y rhyngrwyd ar nifer gynyddol o ddyfeisiau ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau, fel gwylio cynnwys ar-lein, chwarae gemau a galwadau fideo. Yn ogystal, mae busnesau bach a chanolig (gan gynnwys swyddfeydd cangen llai mewn sefydliadau mwy) yn gynyddol yn symud at wasanaethau yn y cwmwl sy'n dibynnu ar gysylltiadau cyflym, dibynadwy a chyson.[2]

1.3 Bu cystadleuaeth manwerthu effeithiol yn alluogwr pwysig yn achos y newidiadau hyn. Mae'r gystadleuaeth yn cadw prisiau'n isel, gan sicrhau bod band eang a data yn fforddiadwy, ac yn sbarduno arloesi technolegol. Er enghraifft, er gwaethaf y twf sylweddol mewn defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau band eang cyflym iawn sy'n cynnig cyflymder uwch ar gyfartaledd, dim ond ychydig iawn y mae pris band eang wedi codi mewn termau real.

1.4 Er bod y cynnydd yn galonogol, mae mwy i'w wneud i sicrhau bod y wlad yn barod i fanteisio ar ragor o ddatblygiadau technolegol. Rydym o'r farn bod angen rhagor o fuddsoddiad i adeiladu rhwydweithiau ffibr llawn mwy dibynadwy a all ddarparu cyflymderau nad ydyn nhw'n bosibl dros y rhwydwaith copr a etifeddwyd. Yn ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol (yr Adolygiad Strategol), cydnabuom mai'r gystadleuaeth ymysg rhwydweithiau gwahanol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau buddsoddiad parhaus mewn rhwydweithiau ffibr llawn o ansawdd uchel.[3]

1.5 Yn ein Datganiad Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol[4] (Datganiad WLA Mawrth 2018) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rhoddom fesurau ar waith ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau cyfanwerthu dros rwydwaith Openreach BT er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth mewn gwasanaethau llinell sefydlog manwerthu.[5] Roedd hyn yn cynnwys ei

[1] Ofcom, Adroddiad Gwledydd Cysylltiedig 2017, Rhagfyr 2017, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0024/108843/summary-report-connected-nations-2017.pdf, adran 2.
[2] Ofcom, Adroddiad Gwledydd Cysylltiedig 2017, Rhagfyr 2017, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0024/108843/summary-report-connected-nations-2017.pdf, adran 2, Ofcom, Adroddiad Gwledydd Cysylltiedig 2016, Rhagfyr 2016, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0035/95876/CN-Report-2016.pdf, tudalen 1, ac Ofcom, Adroddiad Gwledydd Cysylltiedig 2015, Rhagfyr 2015, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0028/69634/connected_nations2015.pdf, tudalen 1.
[3] Ofcom, 2016. *Gwneud i gyfathrebu weithio i bawb – Casgliadau cychwynnol yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol*, paragraffau 3.40-3.45. https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/50416/dcr-statement.pdf
[4] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review
[5] Mae Openreach yn endid cyfreithiol ar wahân gyda'i Fwrdd Cyfarwyddwyr ei hun a dyletswydd i drin ei gwsmeriaid yn gyfartal. Mae'n is-gwmni sy'n eiddo i BT yn gyfan gwbl, ac mae'n darparu gwasanaethau cyfanwerthol dros rwydweithiau mynediad copr a ffibr BT.

gwneud hi'n haws ac yn rhatach i gystadleuwyr ddefnyddio dwythellau tanddaearol a pholion telegraff daearol i adeiladu eu rhwydweithiau ffibr eu hunain a rhoi hyblygrwydd prisio parhaus i BT ar gyfer cysylltiadau mynediad cyfanwerthol sy'n cynnig mwy na 40 Mbit yr eiliad. Mae'r ymagwedd hon wedi ei chynllunio i ysgogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr (gan BT a darparwyr telathrebu sy'n cystadlu), gan amddiffyn cwsmeriaid drwy reolaeth pris ar wasanaeth ffibr 40Mbit yr eiliad Openreach a hefyd i gynnal y gwaith o reoleiddio ei rwydwaith copr.

1.6 Yn ychwanegol, rydym wedi cymryd nifer o gamau eraill i yrru buddsoddiadau yn y rhwydwaith a hyrwyddo cystadleuaeth yn unol â'n hamcanion a nodir yn yr Adolygiad Strategol, gan gynnwys:

- Gwella ansawdd gwasanaethau - rydym wedi gweithio gyda darparwyr telathrebu i roi fframwaith iawndal awtomatig ar waith ar gyfer cwsmeriaid manwerthu, ac wedi pennu safonau gofynnol llymach ar Openreach;
- Newid Openreach i fod yn gwmni ar wahân o safbwynt cyfreithiol er mwyn sicrhau ei fod yn fwy agored i wahanol fodelau buddsoddi a rhannu risg, yn ogystal â chymhellion i fod yn ymatebol i bob cwsmer;
- Gweithio gyda'r Llywodraeth i weithredu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang - sicrhau bod gan bob cartref a busnes bach yn y Deyrnas Unedig hawl gyffredinol i gael band eang boddhaol a fforddiadwy.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n cymharu perfformiad darparwyr telathrebu ar draws gwahanol fetrigau ansawdd gwasanaeth i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus;[6] a
- Dadreoleiddio a symleiddio rheoleiddio lle mae defnyddwyr yn parhau i gael eu diogelu - gan gynnwys lle mae posibilrwydd gwirioneddol o gystadleuaeth.

1.7 Yr unig ranbarth o'r Deyrnas Unedig nad yw BT yn ei wasanaethu yw ardal Hull. Yn ardal Hull, mae KCOM yn berchen ar y rhwydwaith telathrebu mwyaf, ac yn ei weithredu. Mae gweddill y ddogfen hon yn ymwneud â'r Deyrnas Unedig ac eithrio ardal Hull. Rydym wedi cyhoeddi datganiad drafft ar wahân heddiw yn nodi ein canfyddiadau a'n hatebion ar gyfer band eang yn ardal Hull.[7]

## Rheoleiddio cyffredinol yn cefnogi cystadleuaeth yn y farchnad fanwerthu

1.8 Gan BT y mae'r rhwydwaith telathrebu sefydlog mwyaf yn y Deyrnas Unedig, sy'n cwmpasu bron pob adeilad. Mae'r sefyllfa lle mae darparwyr telathrebu eraill yn defnyddio rhwydwaith BT yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo a chynnal cystadleuaeth manwerthu effeithiol ym maes band eang. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr telathrebu yn cynnig gwasanaethau band eang manwerthu i gwsmeriaid gan ddefnyddio rhwydwaith BT drwy'r rheoliad a bennwyd gennym yn y farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol. Mae

---

[6] Ofcom, Dewis y darparwr band eang, symudol a llinell dir gorau. Cymharu ansawdd gwasanaeth 2017 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/113639/full-report.pdf
[7] Ofcom, Adolygiadau o'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a Mynediad Lleol Cyfanwerthol: Adolygiad o gystadleuaeth yn ardal Hull, Datganiad drafft, 21 Mehefin 2018, https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-broadband-access-market-reviews-hull.

rhai darparwyr, fel Sky a TalkTalk, wedi gosod eu cyfarpar eu hunain yn llawer o gyfnewidfeydd BT, drwy broses a elwir yn Ddadfwndelu Dolenni Lleol ac, yn fwy diweddar, trwy Ddadfwndelu Dolenni Lleol Rhithwir, sy'n caniatáu i ddarparwyr telathrebu gynnig band eang cyflym iawn. Mae'r dadfwndelu hwn yn rhoi lefel uchel o reolaeth i ddarparwyr telegyfathrebiadau dros y gwasanaethau y gallan nhw eu cynnig. Mae darparwyr sydd wedi dewis peidio â defnyddio Dadfwndelu Dolenni Lleol a/neu Dadfwndelu Dolenni Lleol Rhithwir yn prynu gwasanaethau band eang cyfanwerthu gan BT (neu ddarparwyr telathrebu eraill sydd â chyfnewidfeydd BT wedi eu dadfwndelu). Virgin Media yw'r unig ddarparwr telathrebu sylweddol yn y Deyrnas Unedig nad yw'n dibynnu ar rwydwaith BT, gan ei fod yn berchen ar ac yn gweithredu rhwydwaith cebl y mae'n ei ddefnyddio i ddarparu band eang, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill fel teledu drwy dalu a theleffoni.

1.9 Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthol, sydd rhwng y farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a gwasanaethau manwerthu. Yn hanesyddol, mae cynhyrchion Mynediad Band Eang Cyfanwerthol BT, a gefnogir gan y rheoliad a roddwyd ar waith gennym mewn adolygiadau blaenorol o'r farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol, wedi chwarae rhan bwysig o ran galluogi darparwyr telathrebu i gynnig gwasanaethau band eang heb orfod buddsoddi yn eu cyfarpar eu hunain - mewn rhai achosion gyda'r bwriad o adeiladu sylfaen o gwsmeriaid cyn buddsoddi (er enghraifft, drwy roi offer yng nghyfnewidfeydd BT i hwyluso Dadfwndelu Dolenni Lleol neu Ddadfwndelu Dolenni Lleol Rhithwir). Fodd bynnag, mae'r defnydd o gynhyrchion Mynediad Band Eang Cyfanwerthol gan ddarparwyr telathrebu ac eithrio BT wedi gostwng yn raddol dros y degawd diwethaf. Mae'r darparwyr telathrebu mwy o faint wedi dadfwndelu cyfnewidfeydd BT mewn sawl rhan o'r Deyrnas Unedig ac wedi buddsoddi yn eu cyfarpar eu hunain. Mae'r darparwyr hyn bellach yn defnyddio Dadfwndelu Dolenni Lleol a/neu Ddadfwndelu Dolenni Lleol Rhithwir yn y mwyafrif helaeth o'r Deyrnas Unedig i gyflenwi gwasanaethau band eang manwerthu.

1.10 Rydym wedi dadreoleiddio Mynediad Band Eang Cyfanwerthol yn raddol yn y rhannau hynny o'r Deyrnas Unedig lle mae presenoldeb darparwyr telathrebu sy'n defnyddio Dadfwndelu Dolenni Lleol a/neu rwydwaith cebl Virgin Media wedi golygu bod gan ddefnyddwyr ddigon o ddewis o ddarparwyr band eang. Yn adolygiad marchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol 2010, dim ond ardaloedd a oedd yn cyfrif am oddeutu 22% o adeiladau'r Deyrnas Unedig yr oeddem yn eu rheoleiddio, ac yn yr adolygiad diwethaf yn 2014, fe wnaethom ostwng hyn i lai na 10% o adeiladau'r Deyrnas Unedig.

1.11 Ers yr adolygiad diwethaf, ychydig iawn o Ddadfwndelu Dolenni Lleol a ddigwyddodd. Ar yr un pryd, mae Openreach wedi parhau i uwchraddio ei rwydwaith i ddarparu cysylltiadau ffibr, gyda'r uwchraddiad hwn bellach yn ymestyn i rai ardaloedd lle nad oes fawr ddim Dadfwndelu Dolenni Lleol, neu ddim o gwbl. Drwy ddefnyddio'r cysylltiadau ffibr hyn, mae darparwyr telathrebu yn gallu gwasanaethu rhagor o gwsmeriaid fesul cyfnewidfa nag y gallan nhw drwy ddefnyddio'r rhwydwaith copr presennol. Mae'r cyfuniad o'r datblygiadau hyn wedi lleihau nifer yr ardaloedd lle nad oes llawer o gystadleuaeth band eang, neu ddim cystadleuaeth o gwbl, hyd yn oed ymhellach, i tua 1% o'r wlad.

1.12 Mae cystadleuaeth fanwerthu yn yr ardaloedd hyn yn y Deyrnas Unedig (yr ydym yn cyfeirio atyn nhw fel Marchnad A) yn gyfyngedig, ac nid ydym yn disgwyl y byddai

gweithredu rheoliad ar lefel Mynediad Band Eang Cyfanwerthol i hyrwyddo mynediad neu ehangu yn y farchnad hon yn debygol o gynyddu cystadleuaeth manwerthu yn sylweddol. Mae rhai o'r prif ddarparwyr telathrebu sy'n gweithredu'n genedlaethol wedi dweud wrthym eu bod naill ai wedi rhoi'r gorau i gynnig gwasanaethau gan ddefnyddio cynhyrchion Mynediad Band Eang Cyfanwerthol ym Marchnad A neu nad ydyn nhw’n cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid newydd. Credwn fod hyn yn debygol o fod oherwydd y gost uwch o wasanaethu'r cwsmeriaid hyn (fel cost systemau unigol oddi ar y rhwydwaith ar gyfer nifer mor fychan o gwsmeriaid posibl), y cyflymder uchaf y gellir ei gynnig i gwsmeriaid (sy'n nodweddiadol yn is yn yr ardaloedd hyn gan fod nifer o adeiladau'r cwsmeriaid ymhellach o'r gyfnewidfa leol neu'r cabinet stryd) a'r rheolaeth fwy cyfyngedig sydd gan ddarparwyr telathrebu ar y cynnyrch terfynol o'i gymharu â phan fyddan nhw’n defnyddio Dadfwndelu Dolenni Lleol a Dadfwndelu Dolenni Lleol Rhithwir.

1.13 Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang (USO),[8] i gwrdd â'i nod o roi'r hawl i bawb gael cysylltiad band eang gweddus am bris fforddiadwy, gyda'r bwriad y bydd hyn ar waith erbyn 2020. Gallai hyn roi i mynediad at fand eang o safon uwch i ddefnyddwyr ym Marchnad A. Fodd bynnag, gan nad yw union ffurf, amseriad nac effaith y gweithrediad yn glir eto, nid ydym wedi ystyried hyn yn ein dadansoddiad o'r farchnad nac yn ein hatebion ar gyfer yr adolygiad hwn o'r farchnad.

1.14 Er gwaethaf y ffaith bod rheoleiddio gwasanaethau Mynediad Band Eang Cyfanwerthol yn annhebygol o arwain at gystadleuaeth fanwerthu sylweddol ym Marchnad A yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, credwn ei bod yn parhau i fod yn bwysig diogelu cystadleuaeth bresennol yn yr ardaloedd hyn, neu fel arall ni fyddai gan ddefnyddwyr unrhyw ddewis (neu ddewis cyfyngedig yn unig) o ddarparwr band eang.

# Casgliadau

## Diffiniad o'r farchnad ac asesu pŵer y farchnad

1.15 I grynhoi, rydym wedi canfod:

- mae gwasanaethau band eang a ddarperir dros rwydweithiau mynediad copr, cebl a ffibr o fewn yr un farchnad, ond mae gwasanaethau band eang drwy rwydweithiau symudol, diwifr a lloeren ar hyn o bryd y tu allan i'r farchnad berthnasol;
- mae pob cyflymder band eang yn yr un farchnad;
- mae'n briodol yn awr ystyried y gwasanaethau a ddarperir dros rwydweithiau mynediad ffibr yn y dadansoddiad o'r farchnad ddaearyddol; ac
- mae maint yr ardaloedd daearyddol lle mae gan ddefnyddwyr ddewis cyfyngedig o ddarparwyr band eang wedi lleihau'n sylweddol i tua 1% o adeiladau'r Deyrnas Unedig.

1.16 Rydym wedi dadansoddi’r gystadleuaeth yn y marchnadoedd hyn, a’n canfyddiadau yw:

- Mae gan BT safle o bŵer arwyddocaol yn y farchnad o ran gwasanaethau Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a ddarperir mewn lleoliad sefydlog ym Marchnad A (sy'n cyfrif am oddeutu 1% o adeiladau'r Deyrnas Unedig); ac

[8] Drwy'r Gorchymyn Cyfathrebiadau Electronig (Gwasanaeth Cyffredinol) (Band Eang) 2018, http://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/445/contents/made

- nid oes gan unrhyw ddarparwr sefyllfa o bŵer arwyddocaol yn y farchnad o ran gwasanaethau Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a ddarperir mewn lleoliad sefydlog ym Marchnad B (sy'n cyfrif am dros 98% o eiddo'r Deyrnas Unedig).[9]

## Mesurau i ddiogelu cystadleuaeth ym Marchnad A

1.17 O ystyried y gostyngiad ym maint Marchnad A Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a'r ffaith nad ydym yn disgwyl unrhyw fynediad newydd sylweddol yn yr ardaloedd hyn gan ddefnyddio gwasanaethau Mynediad Band Eang Cyfanwerthol, rydym wedi canolbwyntio ein gwaith rheoleiddio ar y mesurau sydd eu hangen i ddiogelu cystadleuaeth bresennol. Yn amgylchiadau penodol y farchnad hon, nid ydym o’r farn ei bod hi’n briodol rhoi rheolaeth pris ar waith ar unrhyw un o'r gwasanaethau Mynediad Band Eang Cyfanwerthol. Mae'n annhebygol y bydd defnyddwyr yn wynebu prisiau manwerthu gormodol ym Marchnad A oherwydd prisiau manwerthu cenedlaethol BT ar gyfer ei brif wasanaethau brand 'BT' a'r gystadleuaeth y mae'n ei hwynebu ym Marchnad B. Yn ogystal, nid ydym o'r farn y byddai rheolaeth ar brisiau cyfanwerthu yn arwain at brisiau band eang manwerthu is yn ardaloedd Marchnad A. Mae'r ymagwedd hon yn gyson â'n nod strategol i ddadreoleiddio a symleiddio rheoleiddio lle bo modd.

1.18 Rydym hefyd wedi ailystyried y pecyn o atebion sydd ei angen i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cystadleuaeth yr ydym wedi eu nodi a chwrdd â’n hamcan o ddiogelu cystadleuaeth bresennol ym Marchnad A. Rydym wedi penderfynu pennu gofyniad mwy hyblyg heb wahaniaethu’n ormodol (yn hytrach na chyfuniad llym o rwymedigaeth mewnbynnau nad yw'n gwahaniaethu), lleihau'r cyfnod rhybudd byrraf ar gyfer newidiadau technegol i'r gwasanaethau presennol i fod yn gyson â chontractau BT yn ardaloedd cystadleuol Marchnad B, a dileu'r gofynion hysbysu ymlaen llaw ar gyfer gwybodaeth dechnegol sy'n ymwneud â gwasanaethau newydd. Mae ein hatebion wedi eu rhestru yn Nhabl 1.1 isod.

**Tabl 1.1: Trosolwg o Atebion Marchnad A Mynediad Band Eang Cyfanwerthol**

| Rheoleiddio BT ym Marchnad A |
| --- |
| Gofyniad i ddarparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol ac ar delerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol |
| Gofyniad i beidio â gwahaniaethu'n ormodol wrth gyflenwi gwasanaethau |
| Gofyniad i gyhoeddi cynnig cyfeirio |
| Gofyniad i roi gwybod am newidiadau i delerau, amodau neu daliadau |
| Gofyniad i roi gwybod am newidiadau i wybodaeth dechnegol |
| Gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd gan Ofcom |

[9] Mae'r gweddill (ychydig o dan 1%) o eiddo'r Deyrnas Unedig yn ardal Hull.

| Rheoleiddio BT ym Marchnad A |
| --- |
| Rhwymedigaethau mewn perthynas â gwahanu cyfrifyddu a chyfrifo costau |

*Ffynhonnell: Ofcom*

## Y camau nesaf

1.19 O dan Erthygl 7 o’r Gyfarwyddeb Fframwaith mae’n rhaid i Ofcom roi gwybod i’r Comisiwn Ewropeaidd, BEREC ac awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill am ein cynigion terfynol ar gyfer ein dadansoddiad o'r farchnad a’n hatebion ar ôl cwblhau proses ymgynghori ddomestig. Mae cyfnod o fis i’r sefydliadau hyn ddarparu eu sylwadau i Ofcom. Yn amodol ar sylwadau a gawn, rydyn ni’n bwriadu cyhoeddi ein datganiad terfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2018.